# SL(5)791 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profi cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021 ("y Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021 ("Rheoliadau Rhif 3").

Maent yn ceisio mynd i'r afael â nifer o anghysondebau a nodwyd rhwng y cyfundrefnau rheoleiddio teithio rhyngwladol ar gyfer Cymru a Lloegr. I grynhoi, mae'r Rheoliadau yn:

- Gwneud darpariaeth ar gyfer amddiffyniad esgus rhesymol mewn perthynas â'r gofynion i ddarparu gwybodaeth am deithiwr a'r drosedd am ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol mewn perthynas â'r gofynion hynny;
- Diwygio cynnwys gofynnol yr hysbysiad o ganlyniad prawf negatif a nodir ym mharagraff 2 o Atodlen 1A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, a gwneud diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr 2021 o ganlyniad i hyn;
- Disodli'r diffiniad ac ehangu cwmpas yr esemptiad ar gyfer criw awyren ym mharagraff 10 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, i gynnwys criw y mae'n ofynnol iddynt deithio i'r Deyrnas Unedig fel arall at ddibenion gwaith;
- Cywiro croesgyfeiriadau amrywiol a rhoi'r pŵer i gwnstabl i ofyn am dystiolaeth oddi wrth berson ei fod wedi archebu profion diwrnod 2 a diwrnod 8 sydd i'w cymryd ar ôl iddo gyrraedd Cymru ac wedi talu am y profion hynny;
- Rhoi'r pŵer i swyddogion mewnfudo i ddyroddi hysbysiad cosb benodedig am dorri'r gwaharddiad ar fynediad i deithwyr o wledydd ar y 'rhestr goch';
- Diwygiad technegol i reoliad 2 o Reoliadau Rhif 3 er mwyn cywiro cyfeiriad anghywir.

Yn ogystal, mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol sy'n ddarostyngedig i rai eithriadau i'r gofynion ynysu, i gynnwys digwyddiadau y disgwylir eu cynnal yn y pedwar mis nesaf, a dileu'r rhai sydd eisoes wedi digwydd.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Mae'r pedwar pwynt canlynol wedi'u nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Vaughan Gething AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 12 Mawrth 2021.

Yn benodol, rydym yn nodi'r hyn y mae'r llythyr yn ei ddweud ynglŷn â'r ffaith bod *"nifer o anghysondebau"* wedi'u nodi rhwng y cyfundrefnau rheoleiddio yn Lloegr a'r rheini yng Nghymru, a bod y Rheoliadau hyn yn ceisio mynd i'r afael â'r gwahaniaethau hynny er mwyn sicrhau eu bod yn alinio â'i gilydd yn barhaus. Mae'r llythyr yn esbonio:

> *"Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod, bydd modd i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd; a pharhau â'r ymagwedd pedair gwlad tuag at deithio rhyngwladol, o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Nid yw'r diwygiadau a gynhwysir yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur."*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> "*Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.*"

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio na chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**16 Mawrth 2021**